OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 1030 (Cy. 170)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A465 a'r A470 (Cylchfannau Cwm-gwrach a Resolfen, Castell-nedd a Chylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful) (Terfyn Cyflymder 30mya) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Medi 2023* |
| *Yn dod i rym* | *20 Medi 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd y A465 a'r A470, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A465 a'r A470 (Cylchfannau Cwm-gwrach a Resolfen, Castell-nedd a Chylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful) (Terfyn Cyflymder 30mya) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Medi 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Medi 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

## YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 195 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cwm-gwrach hyd at bwynt 20 metr i'r dwyrain o'r gylchfan honno, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 195 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Cwm-gwrach hyd at bwynt 20 metr i'r gorllewin o'r gylchfan honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Resolfen hyd at bwynt 50 metr i'r dwyrain o'r gylchfan honno, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Resolfen hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o'r gylchfan honno.

Y darn o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin cefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gorllewin o Gylchfan Swansea Road hyd at bwynt 20 metr i'r dwyrain o'r gylchfan honno, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan.